

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Fynwy

Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion – Wedi'i Ddiweddaru ym Mehefin 2021

Crynodeb Gweithredol

- i. Mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLID) ar gyfer Sir Fynwy (ac eithrio'r rhan o'r Sir sydd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Bydd yr CDLID yn nodi ble a faint o ddatblygiadau newydd sydd yn mynd i ddigwydd yn ystod 'cyfnod y Cynllun' (2018-2033). Bydd yn dynodi tir ar gyfer datblygu, yn nodi ardaloedd sydd i'w diogelu ac yn cynnwys polisiau a'n llywio penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Rydym yn gobeithio mabwysiadu'r CDLID yn hwyr yn 2023.
- ii. Bydd CDLID hefyd yn cael ei gyhoeddi gyda Gwerthusiad o Gynaliadwyedd Integredig a fydd yn ystyried effeithiau amgylcheddol, cydraddoldeb, iechyd a llesiant y Cynllun. Mae'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd Integredig yn ddogfen weithio, sydd yn cael ei diweddaru wrth i'r CDLID fynd rhagddo. Bydd yr CDLID yn cynnwys Cynllun Seilwaith, sydd yn amlinellu'r hyn sydd angen er mwyn cefnogi datblygiad y safleoedd sydd wedi eu neilltuo a bydd hefyd yn cynnwys Cynllun Trafnidiaeth Leol a Strategaeth Economaidd. Gyda'i gilydd, bydd y Cynlluniau yma yn ceisio gwireddu uchelgais economaidd y Cyngor a'i bwrpas craidd i adeiladu cymunedau cynaliadwy a dygn sydd yn cefnogi llesiant y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.
- iii. Mae'r Papur hwn yn nodi'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sydd yn wynebu'r Cyngor (economaidd, amgylcheddol cymdeithasol a diwylliannol). Mae 38 mater allweddol wedi eu nodi (gweler **Tabl 2.1**), sydd wedi eu llywio gan ystod o dystiolaeth, yn enwedig yr ymgysylltu cyhoeddus sydd yn rhan o Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy.
- iv. Gweledigaeth CDLID Sir Fynwy yw:

Erbyn 2033, bydd Sir Fynwy yn lle y bydd:

- (1) Pobl yn byw yn mewn cymunedau cynaliadwy, dygn sydd yn cefnogi llesiant y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac yn fwy cynhwysol, cydlynus, ffyniannus, hyfyw a chytbwys mewn cyd-destun demograffig. Bydd cymunedau gwledig a threfol wedi cysylltu'n dda gyda'i gilydd, gyda mynediad gwell at wasanaethau lleol a chyfleusterau lleol, mannau agored a chyfleoedd am waith.**
- (2) Mae cymunedau a busnesau yn rhan o Sir sydd yn ffynnu'n economaidd ac wedi cysylltu'n dda.**
- (3) Mae'r elfennau gorau o ran asedau treftadaeth adeiledig, cefn gwlad, tirwedd ac amgylcheddol, oll wedi eu diogelu a'u gwella er mwyn cynnal cymeriad unigryw'r sir.**

- (4) Mae pobl yn mwynhau ffyrdd o fyw mwy iachus, mwy cynaliadwy gyda mynediad gwella at drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd byd eang.

Effeithiau gofodol gwireddu'r weledigaeth hon erbyn 2033:

Bydd Sir Fynwy wedi tyfu'n gynaliadwy, gan ddosbarthu cartrefi newydd a swyddi yn gymesur ar hyd y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, a'u bod yn cael eu cefnogi gan fwynderau a seilwaith gyda thai fforddiadwy er mwyn diallu anghenion lleol.

Bydd datblygiadau wedi cyfrannu at hwyluso ffyrdd o fyw cynaliadwy drwy ddarparu llefydd o safon uchel sydd yn hyrwyddo datblygiadau carbon isel gyda chyfuniad priodol o ddefnydd sydd wedi eu cysylltu'n dda yn ddigidol ac yn gorfforol i'r ardal ehangach o ran cymeriad, yr amgylchedd a'r gallu i symud drwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo.

- v. Rôl gweledigaeth y CDLID yw egluro pwrpas craidd y CDLID a darparu fframwaith ar gyfer datblygu Strategaeth a Ffefrir y CDLID a pholisïau manwl y dyfodol. Mae'n amlinellu sut y bydd Sir Fynwy yn datblygu newid neu'n cael ei gynnal o ran y telerau cynllunio'r defnydd tir.
- vi. Mae dau ar bymtheg o amcanion y CDLID (gweler isod) wedi eu llunio er mwyn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael gyda'r materion yma ac yna'n gwireddu'r weledigaeth. Mae'r rhain wedi eu hadolygu a'u diwygio er mwyn adlewyrchu'r adborth perthnasol o'r broses ymgysylltu, datganiad y Cyngor o argyfwng hinsawdd ym Mai 2019, datblygiad parhaus o sylfaen dystiolaeth y CDLID ac elfen weledol y Weledigaeth. Cawsant hefyd eu hadolygu yn sgil y pandemig Covid-19 a'u cymeradwyo gan y Cabinet ar 17^{eg} Mehefin 2020 a'r Cyngor ar 22^{ain} Hydref 2020 fel rhai sydd dal yn berthnasol. Mae'r amcanion wedi eu rhestru yn ôl yr amcanion Llesiant mwyaf perthnasol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac wedi eu paru yn erbyn y materion CDLI, y thema o Gynllunio Polisi Cymru rhifyn 11 (PPW11), a'u paru yn erbyn Cynllun Llesiant BGC Sir Fynwy (gweler **Tabl 4.1**).

1) Twf Economaidd/Cyflogaeth

Cefnogi economi ffyniannus, sydd wedi ei chysylltu'n dda ac yn amrywiol ac sydd yn darparu cyfleoedd am swyddi o ansawdd er mwyn caniatáu ac annog twf busnesau cynhenid a denu buddsoddiad mewnol a busnesau arloesol cystadleuol mewn sectorau twf priodol, gan gynnwys busnesau sydd yn dechrau a llefydd iddynt dyfu.

2) Canolfannau Manwerthu

Yn cynnal ac yn gwella'r trefi Sirol, Y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed a Brynbuga fel canolfannau manwerthu hyfyrw a deniadol sydd yn gwasanaethu poblogaeth eu hunain a'r ardaloedd cyfagos, gyda mwy o gwsmeriaid posib drwy dwf yn y dyfodol tra'n cydnabod fod rôl y canolfannau yma yn esblygu.

3) Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd

Yn diogelu, gwella ac yn rheoli amgylchedd naturiol ac ecosystemau Sir Fynwy. Mae hyn yn cynnwys Ardal o harddech Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, tirweddau eraill yn y Sir sydd o safon uchel a'n unigryw, safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig a

buddiannau bioamrywiaeth eraill, ynghyd â'r cysylltiadau rhyngddynt gan greu cysylltiadau newydd iddynt addasu tra hefyd yn manteisio i'r eithaf ar fuddiannau hyn oll i'r economi, twristiaeth, iechyd a llesiant.

4) Risg Llifogydd

Yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried risg llifogydd, nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd sydd mewn peryg o lifogydd neu sydd yn mynd i waethygu'r risg o lifogydd mewn mannau eraill a'r angen i ddylunio'n briodol er mwyn rheoli dŵr oddi ar wyneb y ffordd.

5) Mwynderau a Gwastraff

Er mwyn cwrdd â goblygiadau rhanbarthol a lleol y Sir i reoli a chael gwared â'i wastraff ac i ddiogelu ac i ddefnyddio ei adnoddau mwynderau mewn modd cynaliadwy.

6) Tir

Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o dir, gan gynnwys yr angen i:

- Manteisio ar gyfleoedd at gyfer datblygu tir sydd eisoes wedi ei ddatblygu tra'n cydnabod fod y cyfleoedd o ran safleoedd tir llwyd wedi eu cyfyngu yn Sir Fynwy.
- Hyrwyddo'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas tra'n cydnabod hefyd na fydd hyn yn bosib drwy'r amser yn sgil y gyfradd uchel o'r fath dir yn y Sir a'r cyfleoedd cyfyngedig o ran datblygu safleoedd tir llwyd.

7) Adnoddau Naturiol

Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau naturiol gan gynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd dŵr, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, ailgylchu a lleihau gwastraff.

8) Iechyd a Llesiant

Gwella'r mynediad sydd gan bob oedran at hamdden, chwaraeon, gofod agored a chefn gwlad er mwyn caniatáu ffyrdd o fyw mwy iachus.

9) Demograffi

Gwella'r cyfleoedd sydd gan y boblogaeth iau i fyw a gweithio yn Sir Fynwy gan gynorthwyo i sicrhau demograffi cytbwys.

10) Tai

Yn darparu lefel o dai sydd yn ddigonol i gynnig dewis eang o gartrefi i drigolion presennol a rhai'r dyfodol, tra'n sicrhau bod anghenion lleol am dai priodol fforddiadwy a hygyrch yn cael eu diwallu cyn gynted ag sydd yn bosib, yn enwedig mewn trefi ond hefyd mewn ardaloedd gwledig, cyn hired a bod tai yn medru helpu i adeiladu cymunedau cytbwys cynaliadwy.

11) Creu lleoedd

Yn hyrwyddo lleoedd cynaliadwy o ansawdd da drwy ddylunio, gosod a chyfuno'r defnydd sydd yn gwella cymeriad a hunaniaeth aneddiadau a chefn gwlad yn Sir Fynwy; creu llefydd deniadol, diogel a hygyrch i fyw, gweithio ac ymweld â hwy; ac yn hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant y bobl.

12) Cymunedau

Yn adeiladu cymunedau cynaliadwy dygn lle y mae pobl yn cael mynediad da at gyflogaeth, siopau, tai, trafnidiaeth gyhoeddus teithiol llesol, gofal iechyd, cyfleusterau cymunedol a diwylliannol.

13) Cymunedau Gwledig

Cynnal cymunedau gwledig presennol cyn belled ag sydd yn bosib drwy ddarparu cyfleoedd datblygu ar raddfa a lleoliad priodol mewn ardaloedd gwledig er mwyn cynorthwyo i adeiladu cymunedau gwledig cynaliadwy a'n cryfhau'r economi gwledig.

14) Seilwaith

Yn sicrhau bod y seilwaith ffisegol a digidol priodol (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a hamddenol, dŵr gwastraff, trafnidiaeth, ysgolion, gofal iechyd a band eang ayyb) ar gael neu'n medru cael ei ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd.

15) Hygyrchedd

Yn ceisio lleihau'r angen i deithio drwy hyrwyddo cyfuniad o ddyraniadau defnydd a gwella'r cysylltiad gyda'r rhyngwrwd, a phan fydd teithio yn angenrheidiol, bydd modd darparu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy integredig.

16) Diwylliant, Treftadaeth a'r Iaith Gymraeg

Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig, diwylliant a threftadaeth yn Sir Fynwy ar gyfer y dyfodol tra'n manteisio i'r eithaf er mwyn creu buddiannau ar gyfer yr economi, twristiaeth a llesiant cymdeithasol, gan gynnwys cefnogi a diogelu'r iaith Gymraeg.

17) Newid Hinsawdd

Yn ceisio cyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd eang i 1.5°C, gan gefnogi lleihau carbon drwy gyfrwng ystod o fesurau gan gynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy, dylunio a lleoli datblygiadau newydd, annog twf swyddi a phoblogaeth gytbwys, er mwyn allgymudo, darparu cysylltiadau byd-eang i leihau'r angen i deithio, darparu cerbydau ag allyriadau isel a seilwaith gwefru i leihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer a darparu Seilwaith Gwyrdd o ansawdd.